# Datganiad Ysgol Y Grant Datblygu Disgyblion

Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion ynghylch defnydd ein hysgol o'r GDD ar gyfer blwyddyn academaidd 2024 i 2025.

Mae'n amlinellu ein strategaeth, sut rydym yn bwriadu gwario'r cyllid yn y flwyddyn academaidd hon a'r effaith a gafodd gwariant y llynedd o fewn ein hysgol.

Os yw'ch rhifau yn 5 neu lai, defnyddiwch * yn lle'r dyraniad er mwyn diogelu plant rhag cael eu hadnabod.

### Trosolwg Ysgolion

| Manylion | Data |
|---|---|
| Enw'r ysgol | Ysgol Pencae |
| Nifer y Disgyblion yn yr Ysgol | 207 |
| Cyfran (%) o ddisgyblion sy'n gymwys i'r GDD | 5% |
| Dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwn | Hydref 2024 |
| Dyddiad y caiff ei adolygu | Hydref 2025 |
| Awdurdodwyd y datganiad gan | Daniel Tiplady |
| Yn arwain ar y GDD | Siwan Dafydd |
| Llywodraethwr sy'n arwain | Daniel Tiplady |

## Trosolwg Cyllid

| Manylion | Swm |
|---|---|
| Dyraniad cyllid GDD y flwyddyn academaidd hon | £8,280 |
| | |
| | |
| **Cyfanswm cyllideb y flwyddyn academaidd hon** | £860,060 |

## Rhan A: Cynllun Strategaeth

### Datganiad o fwriad

| |
|---|
| -Sesiynau penodedig i'r disgyblion ar y gofrestr er mwyn hybu eu cynnydd ymhellach o fewn maes llythrennedd<br>-Holl ddisgyblion ar y gofrestr GDD i wneud cynnydd yn y meysydd dysgu a phrofiad<br>-Sichrau lles cadarnhaol ar gyfer holl ddisgyblion y gofrestr GDD<br>-Sicrhau nad oes un disgybl o dan anfantais a chydraddoldeb o ran mynediad at brofiadau ac at y cwricwlwm i bob disgybl<br>-Sicrhau nad oes bwlch cyrhaeddiad rhwng y disgyblion GDD a disgyblion eraill yr ysgol. |

### Canlyniadau a fwriedir

Mae hyn yn esbonio'r canlyniadau rydym yn anelu atynt **erbyn diwedd ein cynllun strategaeth presennol**, a sut y byddwn yn mesur a ydynt wedi'u cyflawni.

| Canlyniad a fwriedir | Meini prawf llwyddiant |
|---|---|
| Targedu medrau llythrennedd (darllen) disgyblion ar y gofrestr. | -Mwyafrif y disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau llythrennedd<br>-Sgor cynnydd y mwyafrif o'r disgyblion yn 1000+ yn yr asesiadau personol<br>- Monitro i ddangos cynnydd parhaus ym medrau'r disgyblion.<br>-Cyfrif Darllen Co gan pob un o'r disgyblion. |
| Rhan fwyaf y disgyblion i fanteisio ar brofiadau allgyrsiol. Bydd yr ysgol yn cyfrannu at y profiadau hyn er mwyn sicrhau mynediad. | -Holl ddisgyblion i fynychu tripiau / cyrsiau preswyl yn ystod y flwyddyn. |

### Gweithgarwch yn y flwyddyn academaidd hon

Mae hyn yn rhoi manylion sut rydym yn bwriadu gwario ein GDD **y flwyddyn academaidd hon** i gyflawni y canlyniadau a fwriedir a restrir uchod.

| |
|---|
| -Cyfrannu at gyflog aelod o staff er mwyn cynnal sesiwn ddarllen ychwanegol gyda disgyblion targed ar y gofrestr GDD.<br><br>-Cyfrannu at gyflog aelod o staff er mwyn cynnal sesiwn rhifedd sylfaenol ychwanegol gyda disgyblion targed ar y gofrestr GDD.<br><br>-Cyfrannu tuag at gyfleoedd a phrofiadau allgyrsiol. |

### Dysgu ac addysgu

Cost wedi'i chyllidebu: £7000

| Gweithgaredd | Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn |
|---|---|
| Aelod o staff i gynnal sesiwn darllen ychwanegol gyda'r disgyblion. | -Rhan fwyaf y disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau darllen. |
| Aelod o staff ar gael i weithio gydag unigolion sydd ag anghenion llesiant. | -Rhan fwyaf y disgyblion i ddangos llesiant cadarnhaol ac yn gwybod at bwy i droi os maen nhw angen cymorth. |

### Ysgolion Cymunedol (i gynnwys: (i) meithrin partneriaethau cryf gyda theuluoedd; (ii) ymateb i anghenion y gymuned; (iii) cydweithio'n effeithiol â gwasanaethau eraill)

Cost wedi'i chyllidebu: £280

| Gweithgaredd | Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn |
|---|---|
| Stondin gwisg ysgol ar gael i deuluoedd yn yr ysgol. | Mynediad gan yr holl ddisgyblion at wisg ysgol yr ysgol. |
| Bore Coffi gydag athrawon arbenigol AFY | Bydd cyfle i rieni gyfarfod athrawon arbenigol gan dderbyn gwybodaeth am y ddarpariaeth a chyfle i ofyn am stategaethau i helpu. |
| | |

### Strategaethau ehangach (er enghraifft a lle bo hynny'n berthnasol, Iechyd a Lles, Cwricwlwm a Chymwysterau, Arweinyddiaeth a Chodi Dyheadau)

Cost wedi'i chyllidebu: £1000

| Gweithgaredd | Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn |
|---|---|
| Cyfrannu at gostau gweithgareddau allgyrsiol | -Pob disgybl yn yr ysgol i gael ecwiti er mwyn cael profiadau allgyrsiol sy'n ennyn hyder<br>-Cyfrannu at gyrsiau allgyrsiol<br>-Cyfrannu at dripiau allgyrsiol. |
| | |

Cyfanswm cost y ceisiadau: £**8,280**

## Rhan B: Adolygiad o ganlyniadau'r flwyddyn academaidd flaenorol

### Canlyniadau'r GDD

Mae hyn yn rhoi manylion yr effaith a gafodd ein gweithgarwch GDD ar ddisgyblion ym mlwyddyn academaidd 2023 i 2024.

<table>
<tr><th>Gweithgarwch</th><th>Effaith</th></tr>
<tr><td>Holl ddisgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau darllen</td><td>
- Dengys isod gynnydd y disgyblion yn eu hasesiadau llythrennedd. Ble fo’r blwch yn Llwyd, nid yw’r asesiad yn addas I’r oedran.
O’r 6 disgybl a wnaeth sefyll asesiad personol llythrennedd, mae sgor cynnydd 4 o’r disgyblion dros 1000. Mae sgor cynnydd 2 allan o 3 disgybl a wnaeth eistedd yr asesiad personol Saesneg wedi derbyn sgor cynnydd dros 1000.
Mae pob disgybl ar wahan i 1 wedi gwneud cynnydd y neu hasesiadau Tric a Chlic.
Gwyrdd – cynnydd cyson neu uwch
Oren – Sgor Safonedig o fewn 5
Coch – Dim cynnydd a phryder.
<table>
<tr><th></th><th>Tric a Chlic</th><th>Asesiad Personol</th><th>NESSY</th><th>Personal Assessment</th></tr>
<tr><td>Disgybl 1</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Disgybl 2</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Disgybl 3</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Disgybl 4</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Disgybl 5</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Disgybl 6</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Disgybl 7</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Disgybl 8</td><td></td><td>x</td><td></td><td>x</td></tr>
<tr><td>Disgybl 9</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Disgybl 10</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Disgybl 11</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Disgybl 12</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
</table>
-Mae’r ysgol wedi buddsoddi unwaith yn rhagor yn y platform, Darllen Co sy’n galluogi pob plentyn i gael mynediad at lyfrau a deunydd darllen Cymraeg yn yr ysgol ynghyd ag adref.
</td></tr>
<tr><td>Rhan fwyaf y disgyblion i fod yn hyderus i ddysgu</td><td>Dengys monitro cyson bod y disgyblion yn hyderus wrth ddysgu ac yn gallu cyfathrebu yr hyn roedden nhw’n gwneud yn llwyddiannus a’u llefydd i wella. Dengys arsylwadau fwrlwm arbennig i ddysgu a chydweithredu arbennig rhwng y disgyblion a’u cyfoedion.</td></tr>
<tr><td>Cyfrannu at gostau gweithgareddau allgyrsiol.</td><td>Eleni mae’r ysgol wedi cyfrannu tuag at gostau disgyblion i Langrannog, Maes y Fron, tripiau theatr, trip i Sain Ffagan a thrip i Amgueddfa Caerdydd. Yn y rhan fwayf o achosion, mae’r ysgol yn cyfrannu hyd at 50% o’r costau, ond mewn rhai achosion mae’r ysgol wedi talu’r pris llawn. Traw effaith hyn yw bod pob disgybl ar y gofrestr GDD wedi mynychu pob un trip a chwrs preswyl.</td></tr>
<tr><td>Datblygu llais y pwyllgorau ysgol trwy weithio gyda’r gymuned</td><td>Cynrychiolodd 1 disgybl yr ysgol ar y pwyllgorau ysgol. Aeth y disgybl hwn ar drip er mwyn datblygu ei ddealltwriaeth o’r pwyllgor a chynnal gwasanaethau yn gyson yn rhannu gwybodaeth gyda’r ysgol. Roedd y disgybl yn rhan o gyfarfodydd tymhorol gyda’r Llywodraethwyr yn rhannu eu gweithgarwch ac yn rhannu ei syniadau am sut i ddatblygu’r</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | ysgol ymhellach. Yn bendant, gwelwyd twf yn hyder y disgybl o ganlyniad i'r profiadau hyn. |
| Cynnal arwerthiant dillad ail law yn gyson | Mae'r ysgol wedi cynnal 3 arwerthiant dillad ail-law er mwyn rhoi mynediad I holl deuluoedd yr ysgol at wisg ysgol. Ble fo angen, roedd teuluoedd yn gallu derbyn gwisg ysgol ail-law yn rhad ac am ddim. |

### Rhaglenni a ddarperir yn allanol

Dylech gynnwys enwau unrhyw raglenni a brynwyd gennych yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol. Bydd hyn yn ein helpu i ganfod pa rai sy'n boblogaidd yng Nghymru.

| Rhaglen | Darparwr |
|---|---|
| | |

## Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

| |
|---|
| -darpariaeth ELSA, Talkabout neu Therapydd Chwarae i 36% o'r disgyblion. |